Cylchlythyr Newsletter

SWYDDFA COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU

OFFICE OF THE POLICE & CRIME COMMISSIONER NORTH WALES

**Cylchlythyr #56 SCHTh Gogledd Cymru – 1 Tachwedd 2024**
**OPCC North Wales Newsletter #56 – 1 November 2024**

## Annog trigolion Porthmadog archebu lle yng nghymhorthfa gyhoeddus y CHTh

Mae Andy Dunbobbin sef Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru a Heddlu Gogledd Cymru yn cynnal cymhorthfa gyhoeddus yn llyfrgell y dref yng Nglaslyn, Stryd y Llan, ar gyfer trigolion Porthmadog a'r cyffiniau, o 2-4pm ar 4 Rhagfyr. Mae'r digwyddiad yn rhan bwysig o ymgyrch y CHTh i ddod â phlismona yn agosach at bobl y rhanbarth. Bydd y gymhorthfa yn galluogi pobl leol drafod plismona yn eu cymunedau a chodi unrhyw bryderon neu sylwadau sydd ganddyn nhw efo'r Comisiynydd a chynrychiolwyr Heddlu Gogledd Cymru.

Cyn ei ail-ethol fel CHTh ym mis Mai 2024, mi wnaeth Andy Dunbobbin ailddatgan ei ymroddiad i fod yn Gomisiynydd amlwg a chyfrifol ar gyfer y rhanbarth, a bod ar gael ac yn groesawgar i breswylwyr. Gyda hyn mewn golwg, mi fydd y Comisiynydd a swyddogion yn hapus trafod materion sy'n effeithio ar drigolion yn eu cymunedau.

Mae gan y rhai sy'n dod 20 munud i siarad yn bersonol efo'r Comisiynydd, a fydd yng nghwmni cynrychiolwyr o'i swyddfa a Heddlu Gogledd Cymru. Bydd y Comisiynydd, swyddogion a staff yn gallu darparu cyfeirio pellach os gall mater gael ei drin yn fwy priodol gan asiantaethau a sefydliadau eraill. Er mwyn sicrhau preifatrwydd, ni fydd aelodau o'r cyhoedd yn bresennol yn ystod y cyfarfod. Darllenwch fwy yma.



## Porthmadog residents urged to book place at PCC and NWP public surgery

North Wales Police and Crime Commissioner (PCC) Andy Dunbobbin and North Wales Police are holding an advice surgery at the town’s library in Glaslyn, Stryd y Llan for residents of Porthmadog and surrounding areas from 2-4pm on December 4. This event is an important part of the PCC’s mission to bring policing closer to the people of the region. The surgery will enable local people to discuss policing in their communities and to raise any concerns or comments they might have with the Commissioner and representatives from North Wales Police.

Prior to his re-election as PCC in May 2024, Andy Dunbobbin reaffirmed his commitment to being a visible and responsible Commissioner for the region and to be available and approachable to residents. With this in mind, the Commissioner and officers will be happy to talk through matters affecting residents in their community.

Attendees will have 20 minutes to speak personally with the Commissioner, who will be accompanied by representatives from his office and North Wales Police, to provide the maximum possible assistance to the public. The Commissioner, officers and staff will be able to provide further signposting if an issue can be more appropriately dealt with by other agencies and organisations. To ensure privacy, no other members of the public will be present during the meeting. Read more here.

## Y CHTh yn gweld sut mae prosiect yn darparu cyfleoedd newydd ar gyfer pobl ifanc

Mae prosiect ym Mwrdeistref Sir Conwy, sydd wedi derbyn buddsoddiad er mwyn darparu gweithgareddau a chyfleoedd ar gyfer pobl ifanc yn yr ardal, wedi cael dau ymweliad diweddar gan Gomisiynydd Heddlu a Throsedd (CHTh) Gogledd Cymru, Andy Dunbobbin.

Mae’r fenter Allgymorth Cymunedol yn cael ei redeg gan Ymgysylltu a Pherthyn Ieuenctid Conwy, ac mi dderbyniodd fuddsoddiad fel rhan o Strategaeth Ymateb i Drais Difrifol Gogledd Cymru. Nod y strategaeth newydd hon ydy gweithio efo cymunedau er mwyn atal a lleihau trais difrifol ledled y rhanbarth. Mae’n canolbwyntio ar ddod â phartneriaid, gan gynnwys yr heddlu, yr awdurdodau lleol, gwasanaethau tân ac achub, ac asiantaethau iechyd a chyfiawnder troseddol penodol, at ei gilydd er mwyn mynd i’r afael â thrais difrifol a’i achosion gwraidd. Mae’r CHTh a’i swyddfa yn gweithredu fel cynullydd ar ran y rhanddeiliaid amrywiol hyn.

Mae’r prosiect gan Ymgysylltu a Pherthyn Ieuenctid Conwy yn rhedeg ar draws nifer o drefi yn y sir, gan gynnwys Bae Colwyn, Llandudno, Bae Cinmel, Llanrwst a Chyffordd Llandudno. Mae amryw o weithgareddau yn cael eu trefnu ar gyfer pobl ifanc yr ardal, lle mae nhw’n gallu galw fewn, bod yn egnïol, cymdeithasu efo’u ffrindiau, a dysgu mwy am y gwasanaethau sydd ar gael yn lleol, ac i’w hannog  gael mynediad i ddarpariaethau ieuenctid sydd yn ddiogel, yn gynnes ac yn gefnogol. Darllenwch fwy yma.



## PCC sees how a project in Conwy County is providing new opportunities for young people with the aim of reducing violence and ASB

A project in Conwy County Borough that has received funding to provide activities and opportunities for young people in the area was the subject of two recent visits by Police and Crime Commissioner (PCC) for North Wales Andy Dunbobbin.

The Community Outreach initiative is run by Conwy Youth Engagement and Belonging and received funding as part of the North Wales Serious Violence Response Strategy. The aim of this key new strategy is to work with communities to prevent and reduce serious violence across the region. It focuses on bringing partners, including the police, local authorities, fire, and rescue services, and specified health and criminal justice agencies together to tackle serious violence and its root causes. The PCC and his office act as the convenor for these various stakeholders.

The project from Conwy Youth Engagement and Belonging is being run across a number of towns in the county, including Colwyn Bay, Llandudno, Kinmel Bay, Llanrwst, and Llandudno Junction. Various activities are laid on for young people in the area to drop in to, where they can get active, socialise with friends, and learn more about the services on offer locally and to encourage them to access safe, warm and supporting youth provisions. Read more here.

## Menter partneriaeth yn gwella diogelwch cleifion yn Ysbyty Gwynedd

Ar Hydref 4, cyfarfu Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru, Andy Dunbobbin, â chynrychiolwyr Heddlu Gogledd Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn Ysbyty Gwynedd i adolygu system teledu cylch cyfyng sydd newydd ei gosod i wella diogelwch cleifion.

Gosodwyd y system deledu cylch cyfyng, sy'n un o'r radd flaenaf, ar ddau bostyn lamp ym mynedfa'r ysbyty, i fynd i'r afael â phryderon am gleifion bregus yn gadael safle'r ysbyty yn annisgwyl. Yn flaenorol, pan oedd digwyddiadau o'r fath yn digwydd, roedd gan yr heddlu wybodaeth gyfyngedig am leoliad cleifion, gan eu rhoi mewn perygl posibl.

Mae'r fenter hon yn ymdrech ar y cyd rhwng Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd (SCHTh), Heddlu Gogledd Cymru (HGC), Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC), a Chyngor Gwynedd. Y cyngor, fel yr Awdurdod Lleol, sy'n cynnal a chadw'r ffilm, y gall HGC ei gyrchu ar alwad brys gan staff yr Ysbyty. Darllenwch fwy yma.



## Partnership initiative improves patient safety at Ysbyty Gwynedd

On October 4, North Wales Police and Crime Commissioner Andy Dunbobbin met with North Wales Police and Betsi Cadwaladr University Health Board representatives at Ysbyty Gwynedd to review a newly installed CCTV system designed to enhance patient safety.

The state-of-the-art CCTV system, installed on two lampposts at the hospital entrance, was implemented to address concerns about vulnerable patients leaving the hospital premises unexpectedly. Previously, when such incidents occurred, police had limited information about patients' whereabouts, potentially putting them at risk.

This initiative is a collaborative effort between the Office of the Police and Crime Commissioner (OPCC), North Wales Police (NWP), Betsi Cadwaladr University Health Board (BCUHB), and Gwynedd Council. The council, as the Local Authority, maintains the footage, which can be accessed by NWP upon an emergency call from the hospital staff. [Read more here.]

---

SWYDDFA COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU

OFFICE OF THE POLICE & CRIME COMMISSIONER NORTH WALES

Rydych chi'n derbyn yr e-bost hwn oherwydd eich bod wedi cofrestru i dderbyn ein e-byst cylchlythyrau.
You are receiving this email as you signed up to receive our newsletter updates.

Eisiau newid sut rydych chi'n derbyn yr e-byst hyn?
Cysylltwch â ni drwy socialmedia@northwales.police.uk i ddiweddaru eich dewisiadau neu ddad-danysgrifio o'r rhestr hon.

Want to change how you receive these emails?
Contact us via socialmedia@northwales.police.uk to update your preferences or unsubscribe from this list.

Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru
Pencadlys yr Heddlu
Glan y Don
Bae Colwyn
Conwy LL29 8AW

Office of the Police and Crime Commissioner North Wales
Police Headquarters
Glan y Don
Colwyn Bay
Conwy LL29 8AW

Gallwch ddarllen ein polisi preifatrwydd yma:
https://www.northwales-pcc.gov.uk/cy/polisi-preifatrwydd

You can read our privacy policy here:
https://www.northwales-pcc.gov.uk/privacy-policy